www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Ymgyrch yn creu ffenestr siop i Ogledd Cymru

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Ymgyrch yn creu ffenestr siop i Ogledd Cymru

Mae disgwyl y bydd ymgyrch fawr i hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan i dwristiaid yn cynhyrchu dros £500,000 o incwm ychwanegol gan ymwelwyr.

Fel rhan o'r ymgyrch, mae pedwar o brif arddangosfeydd twristiaeth a theithio'r DU yn darparu ffenestr siop "ardderchog" i Ogledd Cymru.

Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru sy'n darparu dros hanner y cyllid, sef y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu economi ymwelwyr y rhanbarth.

Mae wedi comisiynu Twristiaeth Gogledd Cymru i reoli'r ymgyrch gyda Grŵp Arddangosfa Gogledd Cymru, consortiwm o awdurdodau lleol, gwestai, trefnwyr digwyddiadau a gweithredwyr atyniadau.

Mae'r consortiwm yn mynychu pedwar digwyddiad twristiaeth mawr yn Bolton, Llundain, Birmingham a Manceinion.

Meddai Swyddog Marchnata Gweithredol y Bartneriaeth Twristiaeth, Carole Startin: "Yn ôl yr hyn mae pawb yn ei ddweud ar hyn o bryd, mae posibilrwydd y bydd pobl yn fwy tueddol o aros tan y funud olaf cyn trefnu pethau, oherwydd y wasgfa ariannol.

"Eleni mae'n bosib y byddant yn aros yn y DU am eu gwyliau yn hytrach na mynd dramor.

"Gan fod y bunt yn colli ei thir mae'n golygu ein bod yn gyrchfan ratach i bobl o wledydd eraill ac rydym yn gobeithio y gall Gogledd Cymru fanteisio ar hynny.

"Mae'r arddangosfeydd yma'n ffenestr siop wych i Ogledd Cymru. Ein nod yw bod y fasnach – yn atyniadau, digwyddiadau a darparwyr llety yn ogystal â'r awdurdodau lleol – i gyd yn dod at ei gilydd.

"Rydym yn gweithio gyda Thwristiaeth Gogledd Cymru, sy'n rheoli'r ymgyrch hon i ni, ynghyd â Chroeso Cymru sy'n sicrhau cyfraddau manteisiol i ni yn yr arddangosfeydd.

"Y syniad yw bod pawb yn mynd i un stondin ar gyfer Gogledd Cymru fel ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd.

"Eleni rydym yn mynd i bedair sioe bwysig y bydd pobl o'r fasnach deithio yn eu mynychu – mae rhai ar gyfer y fasnach yn unig ond bydd y cyhoedd hefyd yn mynychu eraill.

"Mae'r Bartneriaeth Twristiaeth yn buddsoddi £20,000 ac mae'r pot yn cael ei lenwi gan y partneriaid eraill i wneud cyfanswm o £35,000.

Carole Startin, Gweithredwr Marchnata a Digwyddiadau Partneriaeth Twristiaeth, gyda Fiona Gresty (chwith), Rheolwr Marchnata Twristiaeth Gogledd Cymru

"Mae'r ffaith fod pawb yn cyfrannu yn golygu bod yr holl bartneriaid wedi ymrwymo.

"Gallant gyfrannu ar wahanol lefelau – gallant ddosbarthu eu llyfrynnau yn unig neu gallant anfon rhywun yno gyda'r llyfrynnau i'w dosbarthu eu hunain.

"Y digwyddiad cyntaf yn yr ymgyrch yw Great Days Out, sioe undydd yn Bolton, lle bydd teuluoedd yn mynd i gael syniadau am lefydd i fynd am y diwrnod.

"Travel Trade Britain ym Mirmingham yw'r nesaf, sy'n benodol ar gyfer cwmnïau bysiau moethus a threfnwyr gwyliau i grwpiau.

"Yna mae'r Best of Britain yn Llundain sydd ar gyfer y fasnach deithio ac aelodau'r cyhoedd.

"Sioe newydd yw'r olaf, a gynhaliwyd am y tro cyntaf y llynedd – ei henw yw'r Kids Fun Ideas Show sy'n targedu 15,000 o deuluoedd o Ogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr.

"Rydym yn gobeithio cynhyrchu £525,000 o incwm ychwanegol yn sgil ein gwaith yn yr arddangosfeydd eleni.

"Byddai hyn yn cynrychioli elw gwych ar ein buddsoddiad gan y byddai'n golygu ein bod yn cynhyrchu £15 am bob £1 sy'n cael ei gwario ar yr ymgyrch.

Meddai Fiona Gresty, Rheolwr Marchnata Twristiaeth Gogledd Cymru: "Mae'r fasnach deithio'n gweithio 12 i 18 mis ymlaen llaw felly rydym yn ceisio gwneud yn siŵr ein bod yn cael lle blaenllaw yn eu llyfrynnau.

"Dod â phobl at ei gilydd i weithio yw'r allwedd – y fasnach a'r sector cyhoeddus – fel y gallwn ddangos yr hyn sydd gan Ogledd Cymru i'w gynnig.

"Rydym yn gwerthu ein hunain fel 'The Great Outdoors' a'r fantais sydd gennym yw ein bod cymaint nes at y boblogaeth drefol na llawer o'n cystadleuwyr.

"Yma yng Ngogledd Cymru mae gennym 15 miliwn o bobl o fewn taith dwy awr mewn car sy'n golygu ei bod yn haws ein cyrraedd. Mae gennym ddigon ar gael a digon i'w gynnig.

"Ymysg yr ymgyrchoedd y byddwn yn eu hyrwyddo mae Gerddi Gogledd Cymru, Cewri Gogledd Cymru, Digwyddiadau Gogledd Cymru a stondin newydd, Atyniadau Gogledd Cymru.

"Mae gennym hefyd atyniadau newydd cyffrous ar y gorwel gan fod copa'r Wyddfa ar fin ailagor, rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru'n ymuno ym Mhorthmadog a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte ar y rhestr fer ar gyfer statws Treftadaeth Byd."

www.tpnw.org

Traphont Ddŵr Pontcysyllte

tudalen flaenorol ◄

llun: eyeimagery